# Natur Drws Nesaf

## A ddylai ein grŵp ni gael cyfansoddiad?

### A beth mae hynny'n ei olygu beth bynnag?

**Yr ateb cryno ydi y dylai gael cyfansoddiad.**

Dim ond dogfen ysgrifenedig yw "cyfansoddiad" sy'n esbonio sut mae'r grŵp yn cael ei redeg. A dylech, fe ddylech chi gael un. Gellir galw cyfansoddiad yn "rheolau cymdeithas" hefyd.

Edrychwch ar ein dogfen "Sefydlu grŵp cymunedol" (Lloegr – Cymru – Yr Alban – Gogledd Iwerddon) am yr holl fanylion am sut i wneud hyn, a beth i'w gynnwys yn y ddogfen.

Pan fydd pobl yn gofyn, "A ddylen ni fod â chyfansoddiad", weithiau maent yn golygu mewn gwirionedd, "A ddylen ni gael ein hymgorffori" ac mae hynny'n beth gwahanol.

Edrychwch ar ein dogfen "Mathau o grwpiau" (Lloegr – Cymru – Yr Alban – Gogledd Iwerddon) am esboniad o'r holl fathau gwahanol o grwpiau y gallwch eu hystyried.

## I grynhoi

**Mae "grŵp cyfansoddiadol" yn grŵp anffurfiol sydd â rhestr ysgrifenedig o reolau a chanllawiau.** Gellir ei alw hefyd yn "gymdeithas anghorfforedig." Nid yw'n elusen. Rydym yn argymell bod y rhan fwyaf o grwpiau cymunedol sylfaenol yn ysgrifennu eu rheolau, a'u sefydlu fel grŵp cyfansoddiadol / cymdeithas anghorfforedig.

Nid oes angen pwyllgor arnoch chi, ond gallwch ddewis un os ydych yn dymuno. Bydd angen i chi gael cyfarfod bob blwyddyn, o'r enw Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB). Fel grŵp, nid oes gennych chi strwythur cyfreithiol ar wahân, felly ni all y grŵp cyfan brynu nwyddau nac ymrwymo i gontractau – ond gall aelodau unigol wneud hynny. Fodd bynnag, os bydd y grŵp yn mynd i ddyled, gallai'r holl aelodau ganfod eu bod yn gorfod talu.

**Fodd bynnag, os ydych chi'n "corffori", mae hyn yn golygu bod y grŵp ei hun yn beth ar wahân, yn gyfreithiol.** Gall y grŵp brynu pethau, ymrwymo i gontractau, a mynd i ddyled hefyd. Bydd angen cymorth cyfreithiwr neu gynghorydd cyfreithiol arnoch chi i sefydlu'r math yma o grŵp. Bydd yn costio arian.

Gall grŵp corfforedig fod yn elusen, yn gwmni neu'n strwythur arall. Bydd rhaid i chi ddilyn mwy o reoliadau. Ond mae hyn hefyd yn golygu bod unigolion yn cael eu hamddiffyn os oes problem gyfreithiol, oherwydd bod y grŵp ei hun ar wahân i'r aelodau. Bydd angen i chi ofyn am gyngor am gorffori ond ni fydd angen i'r rhan fwyaf o grwpiau cymunedol syml ymgorffori oni bai fod angen i chi brynu neu rentu eiddo mawr, cyflogi pobl neu ymgymryd â gweithgareddau peryglus.

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales